

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED Y BORTH A GYNHALIWYD YN Y NEUADD
GYMUNEDOL NOS LUN, Y 4YDD O ORFFENNAF 2022 AM 19.00 O'R GLOCH**

Presennol:	Cadeirydd:	R Dalton (yn y Gadair yn absenoldeb H Hughes) C Bainbridge M Griffiths A Hughes A J Morris D Pryce Jones N Salmon H Williams
Yn bresennol:	Cynghorydd Sir: Clerc:	H Hughes M Walker 3 aelod o'r cyhoedd.

YMDDIHEURIADAU

49. Cadeirydd, y Cynghorydd H Hughes, y Cynghorwyr G B Jones ac A Thomas. Croesawodd y Cadeirydd Isabelle Railton i'r cyfarfod. Hi fydd Clerc newydd y Cyngor a bydd yn cychwyn yn ei swydd ar y 1af o Fedi.

CYFLWYNIAD GAN ANDY ROWLAND O ECODYFI

50. Estynnodd y Cynghorydd Dalton groeso i Andy Rowland i'r cyfarfod. Siaradodd am gynllun o'r enw "Ynni Lleol", sef cymorth effeithlonrwydd ynni i berchnogion tai a busnesau bach sy'n eu helpu i dalu pris llai am ynni drwy gydweithio â chynhyrchwyr ynni adnewyddadwy lleol. Soniodd Andy am sut mae clybiau ynni'n gweithio a chyfyngiadau o ran y grid. Yn dilyn ei sgwrs cafwyd sesiwn holi ac ateb. Diolchodd y Cadeirydd i Andy am ddod i annerch y Cyngor.

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

51. Mae Mr James Davies wedi bwrw golwg ar gyfrifon y Cyngor, ac mae'r balans a gariwyd drosodd i'r flwyddyn ariannol hon dipyn is na'r blynnyddoedd blaenorol am fod mwy o arian wedi'i wario. Yng ngoleuni'r hinsawdd ariannol bresennol, mae'n cynghori Cyngor Cymuned y Borth i gadw digon o arian yn ei gyfrifon fel y gall ymdopi ag unrhyw wariant annisgwyl.

DATGAN BUDDIANNAU

52. Atgoffwyd y Cynghorwyr i ddatgan buddiant dan unrhyw faterion perthnasol a allai godi yn ystod y cyfarfod.

COFNODION Y CYFARFOD MISOL

53. Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar y 6ed o Fehefin. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Morris a'r eilydd oedd y Cynghorydd Griffiths. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

MATERION YN CODI

54. Cofnod 33. Rhoddodd y Cynghorydd Morris ddiweddariad ar sgwrs a gafodd gydag Ann Griffith o Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r bwriad i gynnal a chadw'r dyfrffosydd yn yr Ardaloedd Draenio Mewnol a'r trwyddedau y mae eu hangen i wneud gwaith o'r fath. Nid yw'r ddyfrffos rhwng y rheilffordd a'r pentref wedi'i chynnwys yn y rownd bresennol o waith arfaethedig.

GOHEBIAETH

55. Anfonwyd pob darn o ohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion at bob Aelod cyn y cyfarfod. Ni chododd yr Aelodau ddim materion ynglŷn â'r ohebiaeth. Cafwyd gohebiaeth arall nad oedd angen gweithredu arni oddi wrth Hwb Cymunedol y Borth – sesiynau blasu'r Men's Shed, Siriol Teifi – hyrwyddo cystadleuaeth gwisgo ffenestri cyn yr Eisteddfod Genedlaethol, Arolwg Tir Coed, gair o ddiolch oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru am y rhodd ariannol diweddar.

56. Ben Lake AS. Gair i ddiolch am yr holl waith y mae'r Cyngor Cymuned yn ei wneud yn y Ward ar ran y gymuned. Hefyd, os yw cau swyddfa'r post yn y Borth yn creu trafferthion i bobl leol, dylent gysylltu ag ef fel y gall godi'r materion hyn ar eu rhan.

57. Amgueddfa Gorsaf y Borth. Bydd yr amgueddfa ar agor rhwng yr 2il o Orffennaf a'r 4ydd o Fedi ar ddyddiau Mawrth, Iau a Sadwrn. Bydd yr amgueddfa hefyd ar agor ddyddiau Mercher ym mis Awst ar gyfer yr arddangosfa archeolegol arbennig.

58. Pryd ar Glud. Manylion y gwasanaeth Pryd ar Glud HubGrub sydd wedi ailgychwyn yn ddiweddar.

59. Adroddiad arolygiad Diogelwch Chwarae ROSPA. Cafwyd diweddariad byr gan y Cynghorydd Bainbridge ar yr adroddiad. Cynigiodd y Cynghorydd Williams fod y Cyngor yn neilltuo £200 ar gyfer y mân waith atgyweirio fel y gellir bodloni'r gofynion a gafwyd yn adroddiad ROSPA. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig. Bydd y brif gât yn cael ei thapio dros dro wrth i'r Cyngor wahodd dyfynbrisiau am y gwaith atgyweirio.

60. Gohebiaeth Arall. Catalog Glasdon.

CYFRIFON

61. Balans y Cyfrifon ar y 13eg o Fehefin 2022

Nationwide	25312.45
Cyfrif Banc Elusennol	12392.56
Cyfrif Banc Dim Rhybudd	7449.45
Cyfrif Adnau	3829.95

62. Incwm

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi – ad-daliad TAW 2021/22	7449.45
Cyfrif Adnau – llog gros hyd 2/6/22	0.48
Cyfrif Elusennol – incwm o werthu mygiau'r Jiwbil	

63. Gwariant – Penderfynodd yr Aelodau dalu'r canlynol: Y cynigydd oedd y Cynghorydd Hughes a'r eilydd oedd y Cynghorydd Bainbridge. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

Ffioedd banc y Cyfrif Elusennol	7.00
TME Electrical Contracting Ltd – gosod goleuadau'r goeden Nadolig a'u tynnu i lawr, a set newydd o oleuadau	835.79
J H Matthews – archwilio cyfrifon 2021/22	100.00
A Thomas – cydnabyddiaeth ariannol	150.00
Archwilio Cymru – ffi am archwiliad 2020/21	420.00
Helen Williams – planhigion i'r gwelyau blodau	41.70
Playsafety Limited - adroddiad ar y maes chwarae	109.20
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi – Cynllun Talu wrth Ennill y Clerc – Ebrill, Mai a Mehefin	424.60
M Walker – Cyflog y Clerc 530.85, costau swyddfa 9.99	540.84
Heledd Davies – Cyfieithu cofnodion misoedd Mai a Mehefin	214.40

CYNLLUNIO

64. Cais am Ganiatâd Cynllunio Llawn.

A220366. Codi dwy anedd at ddefnydd gwyliau (cynllun diwygiedig i ganiatâd cynllunio A170969 sydd eisoes yn bod). Tir i'r de o Wigwam, Ynyslas, y Borth. **Nid oes gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad er na sylwyd ar ddim gwahaniaeth yn uchder y cribau yn y darluniau. Mae Cyngor Cymuned y Borth wedi'i siomi mai cais am dai gwyliau yw hwn yn hytrach na thai fforddiadwy i bobl leol. Yng ngoleuni'r sylwadau hyn, a fyddai Cyngor Sir Ceredigion cystal ag ystyried y pethau hyn wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol nesaf? Hefyd, faint o baneli solar fyddan nhw'n gallu'u cael o ystyried bod yr ystafelloedd yn wynebu tua'r de?**

AMDDIFFYN YR ARFORDIR A LLIFOGYDD

65. Nid oedd y Cynghorydd Sir Hughes yn bresennol i roi diweddariad ar ei gyfarfod â Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r Cynghorydd Salmon wedi sylwi bod rhai o'r hen grwynau ar y traeth yn agored i'r elfennau ac yn beryglus. Mae'n ymddangos bod problemau wrth adrodd ynghylch materion trwy Clic ac nad oes dim wedi'i wneud i fynd i'r afael â hyn. Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod mis Medi.

Y WAL GYFERBYN Â SIOP PREMIER

66. Yn dilyn cyfarfod â chynrychiolwyr Sir Cyngor Sir Ceredigion, awgrymwyd bod Huw Bates yn cysylltu ag Adran Gyfreithiol y Cyngor ar ran Cyngor Cymuned y Borth i holi pwy sy'n berchen ar y tir dan sylw ac i godi ein pryderon ynghylch diogelwch y wal gan nad yw wedi'i hatgyweirio. Cynigiodd y Cynghorydd Andrea Hughes ein bod yn cyfarwyddo Huw Bates i weithredu ar ein rhan, ac fe eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Salmon. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

LLEFYDD PARCIO I FEICIAU YN Y BORTH

67. Mae'r Cynghorydd Salmon wedi cysylltu â Kim Williams i nodi lleoliadau posib ar gyfer rac beiciau. Mae'r Cynghorydd Dalton wedi cytuno i gysylltu â Network Rail i weld a fydden nhw'n fodlon talu am un rac y tu allan i'r orsaf drenau. Awgrymwyd cael rac hefyd y tu allan i'r Neuadd Gymunedol, un ger gorsaf y Bad Achub ac un i lawr ger y toiledau cyhoeddus gyferbyn â'r hen Ganolfan Groeso. Roedd y raciau'n costio oddeutu £260 + TAW. Awgrymodd y Cynghorydd Williams y dylid holi CAVO ynglŷn â chyllid grant posib. Cynigiodd y Cynghorydd Williams ein bod yn bwrw ymlaen â hyn. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bainbridge a phleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

DATHLU RAY QUANT MBE

68. Mae'r Cynghorydd Bainbridge wedi siarad â Mrs Hilary Matthews a chytunwyd i gysylltu â Ray i ofyn beth oedd ei farn ynglŷn â newid enw'r Neuadd Gymunedol i gynnwys ei enw ef i gydnabod ei wasanaeth i ward y Borth.

DIOGELWCH TRAFFIG AC ARWYDDION AR Ffordd CLARACH

69. Soniwyd am y gwrych sy'n gordyfu ger yr Hwb drwy Clic. Mae Cynghorydd Williams yn poeni am geir yn goryrru ar y darn hwnnw o'r ffordd ac, yn ogystal â'r ystyriaethau diogelwch y ffyrdd, does dim palmentydd ar y naill ochr na'r llall o'r ffordd. Bydd yn ysgrifennu at adran Briffyrdd Cyngor Sir Ceredigion ac yn anfon copi at y Prif Weithredwr i fynegi ei phryderon. Bydd hefyd yn holi a oes modd symud y ffens ar waelod Cliff Road er mwyn helaethu'r palmant.

LLWYBR CERDDED DIOGEL I'R YSGOL

70. Mae'r Cynghorydd Williams wedi sôn wrth y Cynghorydd Davies am gerbydau sy'n parcio ar y clogwyn ar hyd y llwybr diogel i'r ysgol ac ar y glaswellt sydd wedi gordyfu ar y palmant cul tuag at Cliff Road. Dywedodd y Cynghorydd Griffiths y byddai'n gofyn i'w mab dorri'r glaswellt sydd bellach yn tyfu drwy'r rheiliau ac sy'n ei gwneud hi'n anodd cerdded ar y palmant.

GWEFAN Y CYNGOR

71. Mae'r mater yn parhau.

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

72. Mae pwyllgorau'r Eisteddfod a'r Carnifal wedi cael gafael ar byntin a baneri ar gyfer y digwyddiadau sydd ar y gweill.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILWYR

73. Cafwyd diweddariad gan y Cynghorydd Hughes ynglŷn â hyfforddiant i ddefnyddio diffibrilwyr. Mae hi wedi cysylltu â rhywun sy'n fodlon cynnal dwy sesiwn hyfforddi ar benwythnosau. Cost sesiwn hyfforddi 2-2 ½ awr ei hyd fydd £30. Y cynigydd oedd y Cynghorydd Morris a'r eilydd oedd y Cynghorydd Morris. Pleidleisiodd yr Aelodau yn unfrydol o blaid y cynnig.

MATERION Y CADEIRYDD

74. Ni chafwyd dim adroddiad.

CYFRIFOLDEBAU'R CYNGHORWYR

75. Gwirfoddolodd y Cynghorwyr i ysgwyddo'r cyfrifoldebau canlynol sy'n ddolen gyswllt â Chenedlaethau'r Dyfodol a sut mae'r 7 parth yn perthyn i waith y Cyngor:

C Bainbridge	Y Parc Cychod, Ardal Chwarae'r Plant, Llywodraethwyr Ysgol Craig yr Wylfa, y Rhyfel Mawr, y Cyngor Iechyd Cymuned, y Celfyddydau, Ymddiriedolwr Hwb Cymunedol y Borth, Warden y Cynllun Argyfyngau.
R Dalton	Y Parc Cychod, Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT), Ymddiriedolwr Hwb Cymunedol y Borth a Thai, Gwirfoddolwr yn Amgueddfa'r Orsaf Drenau, Goryrru a Chydlynnydd y Cynllun Argyfyngau.
M Griffiths	Cynrychiolydd y Cyngor ar Gymdeithas Chwaraeon a Chaeau Chwarae'r Borth, yr Eisteddfod Genedlaethol a Warden y Cynllun Iechyd ac Argyfyngau.
A Hughes	Ymwneud â'r Gymuned a'r Diffibrilwyr, Warden y Cynllun Argyfyngau.
H Hughes	Y Parc Cychod, Tir Comin, Goryrru, y 'Goeden', Tudalen We a Facebook y Cyngor, Goryrru, Ymddiriedolwr Hwb Cymunedol y Borth, Tân, Cydlynnydd y Cynllun Argyfyngau.
D Jones	Y Parc Cychod, Sbwriel, Cŵn, yr Eisteddfod Genedlaethol, Facebook a Warden y Cynllun Argyfyngau.
G B Jones	Warden y Cynllun Argyfyngau, y Celfyddydau a'r Gymraeg, Archwiliwr Ariannol Mewnol, Diffibrilwyr a Chynrychiolydd Cyngor Cymuned y Borth ar brosiect Iechyd a Gofal y Borth.
J Morris	Y Parc Cychod, Dyfrffosydd a Draenio Ffosydd Mewnol, Archwilydd Ariannol Mewnol a Warden y Cynllun Argyfyngau.
N Salmon	Biosffer Dyfi, Traffig a Mynediad i Gerddwyr, Goryrru a Warden y Cynllun Argyfyngau.
A Thomas	Y Celfyddydau, Cynrychiolydd Busnes a Warden y Cynllun Argyfyngau.
H Williams	Presgripsiynu Cymdeithasol, Hwb Cymunedol y Borth, dementia-gyfeillgar a mynediad i bobl anabl, Warden y Cynllun Argyfyngau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dalton at ohebiaeth gan y Clwb Golff a oedd yn gofyn i Gyngor Cymuned y Borth fod yn gyfrifol am reoli ac am fod yng ngofal cyllid y diffibriliwr sydd ar eu safle. Ar ôl trafodaeth fer penderfynwyd nad oedd y Cyngor am wneud hyn gan mai at ddefnydd y cyhoedd y mae pob diffibriliwr y mae'n gyfrifol amdano. Gyda chymorth y Cynghorydd Bainbridge, bydd y Cynghorydd Dalton yn cael gwared ar yr holl hysbysiaidau COVID-19 a osodwyd o amgylch y pentref.

Yn sgil y cynnydd yn y nifer o bobl sy'n dal Cofid, mynegodd y Cynghorydd Williams ei phryder ynglŷn â diffyg awyru yn yr ystafell lle'r oedd y cyfarfod yn cael ei gynnal. Os bydd y nifer o achosion yn dal i godi, mae'n bosib y bydd yn rhaid cynnal y cyfarfodydd drwy gyfrwng Zoom unwaith eto. Serch hynny, bydd y Cyngor yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru cyn y cyfarfod ym mis Medi.

Gofynnodd y Cynghorydd Bainbridge am gyfarfod i drafod y Parc Cychod. Y gobaith yw y bydd modd cynnal y Carnifal eleni. Gwnaethpwyd cais am bob trwydded.

Mae'r Cynghorydd Griffiths wedi sôn wrth yr heddlu am y car sydd ag arwydd "ambiwlans" arno. Mae cŵn ar y traeth yn parhau i achosi problemau mawr. Cytunwyd i rannu neges ar y cyfryngau cymdeithasol i hysbysu pobl bod cŵn wedi'u gwahardd.

Dywedodd y Cynghorydd Andrea Hughes fod pob diffibriliwr yn gweithio ar hyn o bryd.

Nid oedd gan y Cynghorydd Morris ddim i adrodd yn ei gylch.

Mae'r Cynghorydd Salmon wedi bod yn ymchwilio i gael fflapiau i rwystro gwylanod rhag mynd i mewn i finiau stryd. Mae'r Cynghorydd Salmon wedi ymchwilio i Lefydd Lleol ar gyfer Natur ac, yn anffodus, nid oes modd cael cyllid ar gyfer perllan yn yr ysgol gan y byddai'n rhaid agor yr ardal i'r cyhoedd. Mae mudiad Cadwch Gymru'n Daclus yn trefnu gweithgareddau codi sbwriel. Cafodd y Cynghorydd Salmon air â phedwar dyn yn yr orsaf drenau a oedd yn codi ofn ar y gwenoliaid. Mae hi'n poeni am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Borth ar hyn o bryd. Awgrymwyd bod y Cynghorydd Salmon yn ysgrifennu at Wasanaethau Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion. Bydd modd codi pryderon yng nghyfarfod nesaf Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT) nesaf a gynhelir nos Iau, y 14eg o Orffennaf.

ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

76. Ni chafwyd dim adroddiad.

Y CYFARFOD NESAF A'R MATERION I'W CYNNWYS AR YR AGENDA

77. Gan nad oedd rhagor o faterion i'w trafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 9.50pm. Ymhlith yr eitemau ar agenda'r cyfarfod nesaf a gynhelir nos Lun, y 5ed o Fedi 2022 fydd Amddiffyn yr Arfordir a Llifogydd, y Wal gyferbyn â Siop Premier, Dathlu Ray Quant MBE, Gwefan y Cyngor, Newid Hinsawdd, Clirio'r Ddyfrffos, System Clic, Parcio Beiciau yn y Borth, y Parc Cychod a'r adroddiad ar y Maes Chwarae. Cysylltwch â'r Clerc os ydych am ychwanegu eitemau eraill at yr agenda. Bydd y Cynghorydd Hughes yn anfon dolen at bawb cyn y cyfarfod hybrid.